**TUDALEN 40**

Cofnodion y **Pwyllgor Asedau, Adnoddau a Phrosiectau o bell**, a gynhaliwyd drwy fideo-gynadledda Zoom Nos Lun **27 Medi 2021** am 6.30pm.

**YN BRESENNOL: -** Cynghorwyr: Mair Rowlands (Cadeirydd), Medwyn Hughes (Is Gadeirydd, *ymunodd 7.12pm*), Elin Walker Jones, Huw Wyn Jones, John Wynn Jones, Enid Parry, Nigel Pickavance (*gadawodd y cyfarfod am 8.00pm*), Gareth Roberts, Luke Tugwell, Derek Hainge, John Wyn Williams (*ymunodd 6.42pm*), Dylan Fernley (*ymunodd 6.40pm*)
Swyddogion:- Iwan Williams (Cyfarwyddwr Dinesig), Delyth Davies (Cyfieithydd), Sioned Jones (Cofnodion); Dafydd Einion Jones ac Alys Lloyd Jones (Cyngor Gwynedd, ar gyfer eitem agenda Rhif 4)

**109/21 YMDDIHEURIADAU**

Cafwyd ymddiheuriad gan Eu Teilyngdod y Maer, y Cynghorydd Owen Hurcum

**110/21 DATGAN BUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL**
Dim.

**111/21 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD**
Dim. Gwahoddwyd Freddie Jones (Cyngor Marchnad Bangor) ar gyfer eitem agenda Rhif 5.

**112/21 FFRAMWAITH ADFYWIO 'ARDAL NI 2035': TRAFODAETH GYDA CHYNGOR GWYNEDD**
Croesawyd i'r cyfarfod Dafydd Einion Jones, Swyddog Cefnogi Cymunedau Cyngor Gwynedd, ynghyd ag Alys Lloyd Jones. Rhoddodd Dafydd ychydig o gyflwyniad i'r Fframwaith gan egluro nad gwahodd rhestr o ddyheadau yn unig oedd hyn ond bod angen meddwl am ffyrdd o'u cyflawni. Roedd pwyslais mawr ar ffurfio partneriaethau, rhywbeth sydd eisoes yn digwydd ym Mangor. Fel cam cyntaf y broses, roedd yr aelodau eisoes wedi derbyn llythyr gyda chwestiynau i feddwl amdanyn nhw, a gellid eu crisialu i beth sy'n dda a beth sydd heb fod cystal ym Mangor. Cafwyd ymateb brwd a nodwyd hefyd fod rhai o'r pethau da yn golygu problemau yn eu sgil:

- Y Brifysgol yn bresenoldeb mawr ac yn dod â swyddi a chyfoeth. Ond teimlad hefyd fod llety myfyrwyr wedi cymryd drosodd canol y ddinas.
- Mae'r rheilffordd yn gaffaeliad i Fangor ond mae angen ei chysylltu â dulliau trafnidiaeth eraill yn y ddinas.
- Mae canol y ddinas wedi dirywio'n enbyd ers blynyddoedd, yn sgil siopau a swyddi yn symud y tu allan i'r ddinas. Mae angen meddwl am ffyrdd dychmygus o ddefnyddio'r Stryd Fawr. Dod ag adloniant i mewn i'r canol, pethau fel sinemâu, bowlio ayb. Newid amser agor a chau'r siopau ac efallai rhoi gorchudd dros rhai ardaloedd.
- Efallai ail-gynllunio rhai o'r unedau fel eu bod yn fwy deniadol i siopau bach.
- Oes gormod o bwyslais ar y Stryd Fawr, ac y dylid meddwl am fanteisio ar ardaloedd eraill, e.e. gwneud y Pier yn ardal ddeniadol a bywiog gyda'r nos.

**TUDALEN 41**

- Dywedodd un aelod na ddylid canolbwyntio'n ormodol ar y Stryd Fawr. Mae Bangor yn ganolfan Ranbarthol, gyda'r ysbyty a'r brifysgol. Mae Bangor ar gyrion safleoedd gwarchodedig am eu harddwch a byd natur, ac wedi'i lleoli yn llythrennol rhwng y môr a'r mynydd. Mae'n ddinas amlddiwylliannol sydd yn wych, ond hefyd yn ddinas Gymreigia'r byd. "Dathlwn beth sydd gyda ni!"
- Ond roedd pawb yn gytûn mai'r bobl yw ased mwyaf Bangor. Enwyd sawl grŵp cymunedol a wnaeth waith gwych yn y gorffennol e.e. Partneriaeth Maesgeirchen, Grŵp Cymunedol Pobl Bangor, Ffrindiau Pier Garth Bangor; i drefnu digwyddiadau mawr a bach ym Mangor megis y carnifal. Ond mae cyllid yn broblem barhaol a byddai angen cymorth gan yr adran Adfywio i wneud ceisiadau am arian allanol.
- Rhaid meddwl am bartneriaethau/ systemau a fu'n llwyddiannus yn y gorffennol ac ystyried a oes angen eu defnyddio mewn ffordd well neu adeiladu partneriaethau newydd. Pwysleisiwyd hefyd fod angen cynnwys pobl Bangor mewn trafodaethau hefyd.

Diolchodd Dafydd i bawb am eu sylwadau gwerthfawr. Roedd yn fwriad i geisio cynnwys barn mwy o'r cyhoedd dros yr wythnosau nesaf. Dywedodd fod croeso i'r cynghorwyr anfon unrhyw sylwadau pellach ato.

**113/21 CYNIGION MARCHNAD BANGOR: TRAFODAETH**

Croesawyd Freddie Jones o Gwmni Marchnad Bangor i'r cyfarfod. Cwmni Marchnad Bangor fydd yn cydlynu'r gwaith o sefydlu marchnad newydd gyda'r Cyngor a rhoddodd Freddie ychydig o gefndir y cwmni yn ogystal a'r cyd-destun cyfreithiol. Mae Cwmni Marchnad Bangor bellach yn awyddus i helpu'r ddinas i drefnu marchnad ym Mangor unwaith yn rhagor, er mwyn denu mwy o bobl i'r ddinas.
Derbyniwyd dau gynnig gan gwmnïau oedd yn awyddus i redeg y farchnad ac roedd yr aelodau eisoes wedi gweld a thrafod y rhain mewn cyfarfod blaenorol. Yn dilyn trafodaeth, cafwyd cytundeb am yr opsiwn a ffefrir. Roedd croeso mawr i'r posibilrwydd o gael marchnad eto ond mynegwyd un neu ddau bryder-

- bydd angen bod yn ofalus sut mae'r farchnad yn cael ei gosod allan, fel nad yw'n amharu'n ormodol ar y siopau
- bydd angen lle penodol i'r faniau neu lorïau sy'n dod yn sgil y farchnad
- angen tynnu sylw'r gweithredwyr at bolisi iaith y Cyngor.

Roedd Freddie Jones yn cytuno â dewis y Cyngor ac roedd yn edrych ymlaen at gydweithio ar gynlluniau'r farchnad yn y dyfodol.

**114/21 DIWEDDARIAD PROSIECT 'CROESO I FANGOR'**

Roedd y Cynghorydd Pickavance wedi arwain ar yr ymgyrch i uwchraddio'r arwydd Croeso i Fangor ar ochr Llandygai i'r ddinas. Roedd arwydd newydd wedi'i ddylunio a'r aelodau wedi cael cyfle i weld dwy fersiwn ohono. Esboniodd y Cyng Pickavance mai'r syniad oedd symud yr arwydd, a gwella'r ardal yn gyffredinol drwy osod yr arwydd ar wal fach islaw, gyda gwelyau blodau, coed a meinciau o'i gwmpas. Roedd nifer o bobl yn rhan o'r bartneriaeth i wneud hyn a gwaned sawl cais am grant o wahanol lefydd e.e. Cronfa Rheilffordd Dyffryn Conwy; Môn a Menai, Cadw Cymru'n daclus. Mae un arwydd yn costio tua £650.
Y bwriad bydd gosod arwyddion newydd yn y ddwy fynedfa arall i Fangor hefyd.

**TUDALEN 42**
Derbyniwyd yr wybodaeth a diolchodd pawb i’r Cyng Pickavance am ei ymdrechion. Roedd angen gwirio’r geiriad yn y Gymraeg (gefeillio); ac roedd nifer o’r aelodau’n barod iawn i helpu pan fyddai angen gwneud gwaith plannu ayb.
Arweiniodd hyn at drafodaeth am arwyddion yn gyffredinol, yn enwedig i gyfeirio pobl ar y Pier, y teimlad oedd nad yw’r rhai presennol yn eglur o gwbl. Awgrymwyd rhoi arwydd fyddai’n anfon pobl at y maes parcio wrth ochr Clwb Crosville i gael cerdded oddi yno at y Pier.

**115/21 DIWEDDARIAD PROSIECT CYMUNEDOL MAESTRYFAN**

Adroddodd y Cynghorydd Elin Walker Jones ar hwn gan ei bod hi a’r Cyng Gwynant Roberts wedi bod yn flaenllaw yn y prosiect. Roedd grŵp wedi ffurfio yn wreiddiol i drio gwella’r cae chwarae oedd mewn cyflwr difrifol. Ers hynny daeth llawer o drigolion yr ardal at ei gilydd, gydag un o’r trigolion yn ysbrydoli pawb â’i frwdfrydedd. Mae cael cyllid i wella’r cae chwarae yn darged tymor hir ac er mwyn cychwyn yn rhywle, mae cais grant ar y gweill i Môn a Menai i greu gardd gymunedol ar ‘Cae Doctor’. Cafwyd caniatâd Cyngor Gwynedd i fwrw ymlaen a’r gobaith yn y pen draw yw gosod gwelyau blodau, meinciau picnic a choed ffrwythau.
Roedd pawb yn gefnogol ond dywedodd un aelod fod angen edrych ar holl gaeau chwarae Bangor gan eu bod yn ddigon tila yr olwg. Roedd yn teimlo fod rhoi sylw i’r rhain yn bwysicach nag erioed gyda phobl yn gorfod aros yn eu cynefin fwy. Dymunai i hyn gael sylw yn y pwyllgor nesaf.
Nodwyd mai problemau cyllid Gwynedd sy’n gyfrifol am y cyflwr truenus ac awgrymwyd fod angen chwilio am gyllid o lefydd eraill. Dywedodd y Cyng Pickavance ei bod yn syniad creu Llwybrau Antur yn y cae, fel hyn gellir denu grantiau gan Chwaraeon Cymru gan ei fod yn cael ei gyfrif yn ymarfer corff. Mae ffynonellau fel *Comic Relief* yn gallu helpu gyda phethau fel hyn hefyd.

**116/21 ASEDAU CYMUNEDOL: DIWEDDARIAD Y CYFARWYDDWR DINESIG**

Roedd y Cyfarwyddwr Dinesig eisoes wedi cylchredeg diweddariad i’r aelodau. I ychwanegu at y papur:

Pier Bangor: Esboniodd ymhellach am y cais i Gronfa Treftadaeth y Loteri, dywedodd ei fod wedi cael trafodaethau defnyddiol ond erbyn hyn mae angen mynd am gyllid sy’n caniatáu’r Cyngor i recriwtio rhywun i weithio ar y prosiect. Hyn yn arbennig gan mai cyngor CTL oedd y byddai mwy o siawns am lwyddiant trwy wneud cais am £250k-£300k a chategori prosiectau mwy.
Oherwydd diffyg cyflenwadau o ddeunydd, mae oedi ar y gwaith Linkspan a’r orsaf bwmpio. Oherwydd yr ail, mae’r toiledau yn y caffi yn dal ar gau ac roedd y rhai cyhoeddus ger y Pier i fod i gael eu cau ddiwedd Hydref. Ond mae Cyngor Gwynedd wedi sicrhau y byddant ar agor tan ddiwedd y flwyddyn.
Er bod y cynllun i gael tocyn blynyddol i’r Pier wedi’i gymeradwyo, ac yn gweithio’n dda yn gyffredinol diolch i ymdrechion Ffrindiau Pier Garth Bangor, roedd teimlad cyffredinol fod £25 am flwyddyn i bobl heb fod yn byw yn LL57 yn rhy uchel, yr awgrym oedd ei ostwng i £10.

**TUDALEN 43**
Cynigiwyd gostwng y pris i ymwelwyr i £10 a chyflwyno tocyn gydol oes £25 a **PHENDERFYNWYD** o blaid hyn.

Mae hi wedi mynd yn anodd parcio ger y Pier ar adegau prysur gan fod sgaffaldiau yn dal yn eu lle, hefyd rhoddwyd trwyddedau i barcio yno i breswylwyr y Garth yn y gorffennol. Eglurodd y Cyfarwyddwr Dinesig y byddai'r sgaffaldiau (a'r portacabins) yno am dipyn nes bod gwaith prosiectau yn gallu dod i ben. Cynigiwyd stopio rhoi trwyddedau parcio i breswylwyr y Garth er mwyn rhoi blaenoriaeth i ymwelwyr y Pier a **PHENDERFYNWYD** o blaid hyn.
Dywedodd un aelod fod bwriad i gynnal digwyddiad Calan Gaeaf ar y Pier ac y byddai cais am wirfoddolwyr ar y noson.

Roedd popeth arall fel yn ôl y papur. Canmolwyd y cydweithio buddiol iawn gyda chwmni Adra yng  Ngerddi Diana; a **PHENDERFYNWYD** anfon llythyr i Adra yn diolch am eu cydweithrediad.

Digwyddiadau i ddod. Tynnodd y Cyfarwyddwr Dinesig sylw at y canlynol:

31 Hydref – Hanner Marathon a 10k Bangor (yn defnyddio'r Pier)
5 Tachwedd - nid yw'r Llewod yn bwriadu cynnal y Noson Tân Gwyllt eleni oherwydd diffyg gwirfoddolwyr. Beth am y Cyngor? Nodwyd mai dim ond 5 wythnos sydd i drefnu. Y Cyfarwyddwr Dinesig i drafod yn fewnol. Y Pier yn opsiwn.
14 Tachwedd – Sul y Cofio. Y gwahoddiadau'n mynd allan ar gyfer hyn yn fuan.
10 Rhagfyr – Awyr Las wedi mynegi dyhead i gydweithio eto ar y Pier. Cynllun i lansio ymgyrch ar y diwrnod hwn. Codi arian i Awyr Las ond hefyd i gael diffibriliwr ar y Pier.
Rhagfyr – goleuadau Nadolig. Rhannu'r gost â Bangor yn Gyntaf. Gallai fod oedi cyn i'r goleuadau newydd gyrraedd, felly angen cynllun o ran y lleoliadau i osod y goleuadau eleni.

**117/21  CAIS GRANT CREU LLEOEDD LLYWODRAETH CYMRU: DIWEDDARIAD Y CYFARWYDDWR DINESIG**

Dywedodd y Cyfarwyddwr Dinesig fod y cais dal yn fyw. Atgoffwyd yr aelodau mai cais oedd hwn am £100k dros 6 thema. Byddai Llywodraeth Cymru yn medru cyfrannu £70k ond byddai angen dod o hyd i arian cyfatebol ar gyfer y gweddill. Roedd y cais manwl wedi'i ddosbarthu i'r aelodau ymlaen llaw. Byddai'n rhaid i'r arian gael ei wario erbyn diwedd Mawrth 2022. Gofynnodd y Cyfarwyddwr Dinesig i'r aelodau ystyried ymrwymo £10k o'r arian cyfatebol.
**PENDERFYNWYD** yn unfrydol ymrwymo'r £10k arian cyfatebol.

**118/21  ANFONEBAU I'W TALU A MATERION ARIANNOL**

Cytunodd yr aelodau dalu'r anfonebau fel yn ôl y rhestr a oedd yn dod i gyfanswm o £23,877.

**TUDALEN 44**
**119/21 EITEMAU AR GYFER Y CYFARFOD NESAF**

(i) Caeau Chwarae'r Ddinas – gweler 115/21 uchod
(ii) Golwg y Stryd Fawr – mynegwyd fod problemau gyda chwyn ac ati o hyd. Hefyd, bu problemau gwrthgymdeithasol yn ddiweddar. Derbyniwyd llythyr gan fam myfyriwr newydd a oedd yn poeni am yr hyn a welsai o amgylch y rhan o'r stryd fawr sy'n edrych i lawr ar y Gadeirlan. Bydd y Cyfarwyddwr Dinesig yn mynychu cyfarfod a drefnwyd gan Siân Gwenllian AS ymhen rhai diwrnodau, i drafod adroddiadau'r heddlu a'r gymuned fusnes, a bydd yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf.

**Daeth y cyfarfod i ben am 8.41pm**

CITY DIRECTOR– Iwan Williams – CYFARWYDDWR DINESIG